

yn cyflwyno digwyddiad ieithoedd rhanbarthol a marchnata i ysgolion

HER EWROPEAIDD

dydd Llun 9 Gorffennaf 2018

Prifysgol Bangor



Mae ein Her Ewropeaidd wedi'i anelu'n benodol at ddisgyblion Blwyddyn 9 a 10 sy'n astudio **ieithoedd** ac sydd hefyd â diddordeb mewn **marchnata a gwerthu** rhyngwladol.

Trosolwg

Mae 70% o gwmnïau'r Deyrnas Unedig bellach yn masnachu'n rhyngwladol ac i'r rhan fwyaf ohonynt mae hyn yn golygu marchnata a gwerthu eu cynhyrchion mewn gwledydd eraill. Rydym yn allforio mwy i bartneriaid masnach yn Ewrop nag ydym i'r UDA a gwledydd y Gymanwlad gyda'i gilydd, ac mae wyth o'r prif wledydd yr ydym yn allforio iddynt yn Ewrop, gan gynnwys Ffrainc, yr Almaen a Sbaen. Felly, mae'r her yn canolbwyntio ar wledydd Ewrop ac yn targedu'r ieithoedd Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Bydd y brif her yn cynnwys tasgau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â mynd â chynnyrch bwyd nodweddiadol o Gymru i ffair fasnach rhyngwladol.

Amlinelliad o'r diwrnod

Bydd y diwrnod yn cynnwys:

- Her farchnata a gwerthu a bydd gwobr i'r tîm buddugol
- Prif sgwrs gan Alex Pickering o'r Goethe Institut
- Cyflwyniad gan y myfyrwyr sy'n defnyddio eu hiaith / hieithoedd targed
- Cyflwyniad i rai technegau marchnata
- Cyfle i siarad â phobl fusnes rhyngwladol



Yn ystod y dydd, bydd Hyrwyddwyr Iaith Busnes wrth law i gynghori'r myfyrwyr a helpu gyda materion ieithyddol.

Pwy a all gymryd rhan?

Fe'ch gwahoddir i anfon grŵp o 6 **disgybl iaith** i gymryd rhan yn ein Her Ewropeaidd. Mae'r digwyddiad wedi ei anelu at ddisgyblion Blwyddyn 10 neu ddisgyblion disglair o Flwyddyn 9 sydd wedi dewis cymryd TGAU iaith. Gall y grŵp fod yn grŵp oedran cymysg. Rhaid i'r disgyblion i gyd fod yn dysgu **Ffrangeg, Almaeneg** neu **Sbaeneg** a gellir cael cymysgedd o ddisgyblion **gwahanol ieithoedd**. *Byddant yn cael eu rhannu'n dimau a byddant yn gweithio gyda disgyblion o ysgolion eraill. Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Saesneg.*



Manylion ymgeisio

Yddiad cau ar gyfer cofrestru: Caiff llefydd eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin. Gan fod mwy o geisiadau nag sydd o le i fynd i lawer o'n digwyddiadau rhanbarthol, rydym yn argymhell eich bod yn cofrestru cyn gynted â phosibl i osgoi cael eich siomi gan mai nifer gyfyngedig o leodd sydd ar gael.

Ceisiadau:

Rhowch enwau'r disgyblion, eu grŵp blwyddyn, a'r iaith (ieithoedd) y maent yn eu hastudio. Dylai pob grŵp hefyd anfon 200 o eiriau am yr hyn yr hoffent ei gael allan o'r diwrnod (gellir anfon hyn yn nes ymlaen). Cofiwch gynnwys manylion cyswllt eich ysgol. Nodwch mai dim ond ar ôl derbyn enwau y byddwn yn cadw llefydd, ond mae croeso i chi roi gwybod i ni am eich bwriad i gymryd rhan er mwyn i ni gael anfon gwybodaeth atoch.

Cost:

Cost yr her yw £150 fesul grŵp o 6 a bydd yn cynnwys cinio a lluniaeth.

Amser:

Bydd y diwrnod yn cychwyn am 9.00am (cofrestru) er mwyn dechrau am 9.20 a bydd yn para tan 3.30pm

Telerau:

Sylwer, unwaith y bydd yr anfoneb wedi'i hanfon y codir y £150 yn llawn oni bai y caiff y lle ei lenwi gan ysgol arall.

Anfonwch eich cais yn electronig at:

Sally Fagan, Business Language Champions

E-bost: sally@blcevents.co.uk

Rhestr wirio ar gyfer ffurflenni cais

- Enwau, grŵp blwyddyn a'r iaith (ieithoedd) y mae pob disgybl yn ei hastudio
- Cais 200 gair gan y grŵp yn Saesneg (nodwch mai 200 o eiriau gan y grŵp cyfan yw hyn a gellir ei anfon yn nes ymlaen)
- Enw a chyfeiriad eich ysgol
- Enw ac e-bost y prif berson cyswllt
- Rhif ffôn a rhif ffôn symudol y prif berson cyswllt



Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr her, ffoniwch Sally Fagan ar 01949 860167 neu 07967 699614 neu e-bost sally@blcevents.co.uk

Hoffem ddiolch i Brifysgol Bangor a Llwybrau at Ieithoedd Cymru am gynnal y digwyddiad hwn!